**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

**Hydref 20fed 2025**

**Cyfarfod Hybrid (Aml-leoliad)**

**Presenoldeb:**

Cadeirydd: Cynghorydd Elwyn Edwards
Is-gadeirydd: Cynghorydd Huw Rowlands

**Y Cynghorwyr:**
Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Elin Hywel, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Anne Lloyd Jones, Cai Larsen, Edgar Owen, Gareth Coj Parry, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts a Gruffydd Williams

**Eraill a wahoddwyd - Aelod Lleol**: Y Cynghorydd Angela Russell a'r Cynghorydd Beca Roberts

**Swyddogion:** Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol - Swyddog Monitro), Dafydd Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gwawr Hughes (Rheolwr Cynllunio), Glyn Llewelyn (Uwch Swyddog Cynllunio), Dafydd Jones (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Pughe

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 20fed o Hydref 2025 |

**PWNC: Eitem 5.1 Cais Rhif C23/0338/38/LL TIR GERLLAW LON PIN, LLANBEDROG GWYNEDD, LL53 7PH**

**Cais llawn i osod paneli solar (PV) er mwyn creu fferm solar 4.99MW gyda datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys creu mynedfa gerbydol newydd a thraciau mynediad, codi ffens, tirlunio, gosod 2 stesion newidydd i gasglu a dosbarthu trydan a grëir a gosod ceblau tanddaearol**.

**PENDERFYNIAD: GWRTHOD**

**Y bwriad yn annerbyniol o ystyried gofynion maen prawf 1 a 3 polisi ADN 2 ynghyd a gofynion polisïau PCYFF 3 a 4 ac AMG 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017) ac Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd 2014 o ganlyniad i faint a lleoliad y bwriad o fewn Ardal Tirwedd Arbennig a'i effaith weledol ar gymeriad y tirwedd, ac ei fod yn cael niwed sylweddol i fwynderau gweledol preswyl trigolion cyfagos, yn benodol eiddo Wern Newydd.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 14 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 20fed o Hydref 2025 |

**PWNC: Eitem 5.2 Cais Rhif C24/0937/16/LL ZIP WORLD, CHWAREL PENRHYN, BETHESDA, BANGOR, GWYNEDD LL57 4YG**

**Datblygu reid dwristiaeth antur newydd ar ffurf 'Swing' i gynnwys codi strwythur platfform, ramp a strwythur glanio, ceblau a strwythurau angori ynghyd â gwaith cysylltiedig**

**PENDERFYNIAD: Caniatáu yn ddarostyngedig i dderbyn sylwadau cadarnhaol gan CADW ac i'r amodau canlynol :**

1. **5 mlynedd**
2. **Cydymffurfio gyda'r cynlluniau a gymeradwywyd**
3. **Cydymffurfio gyda'r Cynllun Rheolaeth Trafnidiaeth Adeiladu**
4. **Cydymffurfio gyda'r Asesiad Ecolegol Cychwynnol a'r Gwelliannau Cynefinoedd**
5. **Cyflwyno a chytuno Cynllun Rheoli Treftadaeth**
6. **Cyflwyno Datganiad Dull Gweithredu amgylcheddol**
7. **Cyflwyno a chytuno Cynllun Rheolaeth Safle gan gynnwys mecanwaith i ddelio gyda chwynion.**
8. **Arwyddion Cymraeg/dwyieithog**
9. **Amodau Cadw**

Nodyn – Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru.

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 9 |
| Yn erbyn | 4 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.